O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 112 (Cy.29)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra i Gyffordd 23a Magwyr, Casnewydd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Dros Dro) 2011

Gwnaed *24 Ionawr 2011*

Yn dod i rym *31 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i'r De (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra i Gyffordd 23a Magwyr, Casnewydd (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Dros Dro) 2011

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn :

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, a chan unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 31 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau o'r draffordd a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.